Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

28 Tachwedd 2024

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am fy mlaenoriaethau ar gyfer datgarboneiddio tai, yn enwedig statws y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio a chyhoeddi map llwybr.

Mae sylfeini ein polisi ar ddatgarboneiddio tai wedi'u nodi i raddau helaeth yn y Strategaeth Gwres, a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf. O ystyried y synergedd rhwng cynllun gweithredu arfaethedig y sector preswyl i gefnogi'r Strategaeth a map llwybr ar gyfer datgarboneiddio tai, rydym wedi penderfynu cyhoeddi un ddogfen yn gynnar yn nhymor y Gwanwyn.

Daeth gwaith y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i ben ym mis Ebrill, a rydym yn adolygu ein trefniadau ynghylch grwpiau rhanddeiliaid. Cawsom fap llwybr arfaethedig gan Gadeirydd y Grŵp a rydym wedi bod yn ystyried ei gynnwys ochr yn ochr ag argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth i ni gwblhau ein map llwybr a'n cynllun gweithredu ar gyfer y sector preswyl.

Yn y cyfamser, rydym yn cyflwyno cyfres o bolisïau i weithredu effeithlonrwydd ynni, gwresogi carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer datgarboneiddio drwy ein grantiau i landlordiaid cymdeithasol, ein cynllun Cartrefi Cynnes Nyth a'n cynllun benthyciadau Cartrefi Gwyrdd Cymru a lansiwyd yn ddiweddar, a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.